

BY
MOUNTAIN PATH
TO
PISTYLL RHAeadR




Powys

LLWYBR
MUNYDD
AT
BISTYLL RHAeadR

TATH GERDDED SAITH MOLLTUR AT UN O SAITH RHYFEDDOD CYMRU

A SEVEN MILE WALK TO ONE OF THE SEVEN WONDERS OF WALES

BY MOUNTAIN PATH TO PYSTILL RHAEDR

**“Pistyll Rhaeadr and Wrexham Steeple,
Snowdon's Mountain without it's people,
Overton's Yew Trees, St Winifred's Well,
Llangollen Bridge and Gresford Bells.”**

(Traditional rhyme listing the Seven Wonders of Wales).

The spectacular waterfall at Pistyll Rhaeadr tumbles some 73 metres (240 feet) in two great leaps, separated by an intriguing natural arch known as the Fairy Bridge. It is the highest falls in Wales or England and in the words of the Victorian writer George Borrow, “... far exceeds them all in beauty.”

There is no better way to come upon the falls than by walking. Situated in the very heart of the Berwyn Mountains, the views are breathtaking and the wildness of the landscape appeals to those who enjoy high level rambles. The walk between Llangynog and Pistyll Rhaeadr provides a challenge but those who take it will be rewarded by exceptional views across the County of Powys.

The walk is about 12kms (7.5 miles) in total. It is not a casual, easy stroll, but an energetic walk including long, steep climbs and the need to ford several small streams (generally on suitable stepping stones). Allow at least 4 hours plus time to linger at the falls.

LLANGYNOG IN THE TANAT VALLEY

The village is named after St. Cynog, son of Brychan, a fifth century Welsh prince. Remains of an Iron Age settlement on Craig Rhiwarth, together with tumuli and cairns of unknown dates scattered in the mountains suggest a very long history. The now-peaceful village was a thriving lead mining and slate quarrying centre until a century ago. An old tramway incline up to the heights of the quarries on Craig Rhiwarth is still visible north of the village centre; smaller workings scar the valley sides. The Tanat Valley Light Railway, built to carry out this mineral wealth, opened in 1904, linking to the national network near Oswestry. It closed for passengers in 1951 and completely in 1964 - the old station was where the caravan park now stands. Nestled between the waters of the Eirth and Tanat rivers, the village exudes a quiet rural charm very appealing to the walker.

LLWYBR MYNYDD AT BISTYLL RHAEDR

**“Pistyll Rhaeadr and Wrexham Steeple,
Snowdon's Mountain without it's people,
Overton's Yew Trees, St Winifred's Well,
Llangollen Bridge and Gresford Bells”.**

(Hen rigwm traddodiadol yn rhestru Saith Rhyfeddod Cymru)

Mae Pistyll Rhaeadr yn plymio rhyw 73 metr (240 troedfedd) o ben clogwyn serth, gyda bwa hynod o graig naturiol yn rhannu cwmp y dŵr yn ddwy ran. Dyma'r rhaeadr uchaf yng Nghymru a Lloegr, ac ysgrifennodd George Borrow ei bod ben ac ysgwydd uwch pob un arall o ran ei harddwch.

Mae'r rhaeadr yn llechu yng nghanol Mynyddoedd y Berwyn, a'r ffordd orau i'w darganfod yw trwy gerdded ati: mae'r golygfeydd yn wych a bydd y tirwedd gwyllt yn apelio at rai sy'n mwynhau crwydro tiroedd uchel. Er bod y llwybr rhwng Llangynog a Phistyll Rhaeadr yn cynnig tipyn o her i gerddwyr, mae'r golygfeydd arbennig dros dirlun Powys yn sicrhau taith gwerth chweil.

Mae'r llwybr oddeutu 12km (7.5 milltir) o hyd. Nid taith rwydd ac hamddenol mo hon, ac mae angen tipyn o egni i ddringo'r llethrau hir a serth. Rhaid croesi nentydd bychain mewn sawl man hefyd (ar gerrig camu addas fel rheol). Gadewch o leiaf 4 awr ar gyfer y daith, ynghyd ag amser ychwanegol i loetran yn ymyl y rhaeadr ei hun.



Nant y Llyn and Cadair Berwyn

Nant y Llyn a Chadair Berwyn

The old incline on Craig Rhiwarth

Yr hen incline ar Graig Rhiwarth



LLANGYNOG YN NYFFRYN TANAT

Enwyd y pentref bach hwn ar ôl Sant Cynog, mab Brychan, a oedd yn un o dywysogion Cymru yn y bumed Ganrif. Ceir nifer o olion archaeolegol yn yr ardal, gan gynnwys gweddillion caer Oes Haearn ar ben Craig Rhiwarth a nifer o gromlechi ar hyd a lled y mynyddoedd, sydd oll yn awgrymu bod gan yr ardal hen, hen hanes. Bu diwydiant plwm a llechi llewyrchus yn y pentref tan rhyw ganrif yn ôl. Gallwch weld o hyd olion hen dramffordd yn dringo at y chwareli ar Graig Rhiwarth, i'r gogledd o'r pentref ac mae gweithfeydd llai yn britho'r llethrau bob ochr i'r dyffryn. Agorwyd Rheilffordd Dyffryn Tanat yn 1904 i gludo'r mwyn a'r cerrig o'r dyffryn, ac roedd hon yn cysylltu â'r rhwydwaith genedlaethol ger Croesoswallt. Gorffennodd y rheilffordd gludo teithwyr yn 1951 ac fe'i caewyd yn llwyr yn 1964 - roedd yr hen orsaf yn y fan lle mae'r maes carafanau heddiw.

CLOTHING AND SAFETY


This walk reaches over 530 metres (1,740 feet) above sea level and includes long, steep climbs and descents and moorland walking. You will need good walking boots or shoes, warm clothing and always carry waterproofs. The route is fairly obvious on the ground, but be advised against following it when low cloud, mist, heavy rain or snow are evident. Particular care should be taken at and above Pistyll Rhaeadr waterfall - the rock surfaces can be slippery, both grassy slopes and rocks are icy in frosty conditions and the cliff edges formed by the waterfall are totally unprotected.

DILLAD A DIOGELWCH

Dringfa'r llwybr hwn i uchder o 530 metr (1,740 troedfedd) a mwy uwchben lefel y môr, a rhaid i gerddwyr esgyn a disgyn ar hyd llethrau hir a serth, yn ogystal â chroesi rhostir agored. Bydd angen esgidiau cerdded cryf arnoch, ynghyd â dillad cynnes, a chofiwch bob amser gario dillad glaw. Mae'r llwybr yn weddol amlwg ar y ddaear, ond peidiwch mentro ar y daith os bydd y cymylau yn isel neu mewn niwl, glaw trwm neu eira. Dylid cymryd gofal arbennig yn ymyl Pistyll Rhaeadr - gall wyneb y graig fod yn lithrig iawn o gwmpas y rhaeadr, bydd y creigiau a'r glaswellt yn rhewi mewn tywydd oer iawn ac nid oes unrhyw fath o atalfeydd ar ymylon y clogwyni.

LOCATION OF WALK

LLEOLIAD Y DAITH



INFORMATION

The walk starts and finishes at Llangynog in Powys.

Location - Llangynog is on the B4396/B4391 route between Oswestry and Bala.

Parking - large village-centre car park.

Public Transport - Tanat Valley Coaches operate a bus service between Oswestry and Llangynog, Mondays to Saturdays. Times and days of operation vary. For details ring the County Council Information Line - 01597 826678.

Walk length - 12 kms (7.5 miles). **Time** - 4 to 5 hours.

Refreshments - pubs in Llangynog; cafe at Pistyll Rhaeadr (seasonal, summer opening).

Toilets - public conveniences at Llangynog and Pistyll Rhaeadr car parks.

Telephones - public call boxes at Llangynog and Pistyll Rhaeadr.

Tourist Information - Welshpool, telephone 01938 552043.

GWYBODAETH

Mae'r llwybr yn dechrau ac yn gorffen yn Llangynog ym Mhowys.

Lleoliad - Mae Llangynog ar y B4396/B4391 rhwng Croesoswallt a'r Bala.

Parcio - maes parcio mawr yng nghanol y pentref.

Cludiant Cyhoeddus - Mae Bysiau Dyffryn Tanat yn rhedeg gwasanaeth bws rhwng Croesoswallt a Llangynog, Llun-Sadwrn. Mae amserau a dyddiau'r gwasanaeth yn amrywio. Am fanylion cysylltwch â Llinell Wybodaeth y Cyngor Sir - 01597 826678.

Hyd y llwybr - 12km (7.5 milltir).

Amser - 4 i 5 awr.

Lluniaeth - tafarndai yn Llangynog; caffï wrth droed Pistyll Rhaeadr (tymhorol, ar agor yn yr haf).

Cyfleusterau Cyhoeddus - ym meysydd parcio Llangynog a Phistyll Rhaeadr.

Teleffonau - blychau ffôn cyhoeddus yn Llangynog a ger Pistyll Rhaeadr.

Gwybodaeth i Ymwelwyr - Trallwng, ffôn 01938 552043.



Powys County Council/Cyngor Sir Powys
County Hall/Neuadd y Sir
Llandrindod, Powys LD1 5LG